

Beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)?

Cafodd y FfLIRh ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru i helpu plant Cymru i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd rhagorol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Bydd y fframwaith yn galluogi pob athro i fonitro cynnydd disgyblion yn erbyn disgygliadau fesul blwyddyn ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Bydd defnyddio'r wybodaeth hon yn helpu'r ysgol i adnabod y ffordd orau i herio a chynorthwyo pob un o'n dysgwyr.

Cymorth i Ysgolion

- Sefydlwyd Rhaglen Gymorth Genedlaethol i helpu pob ysgol i weithredu'r FfLIRh. Mae wedi cael ei theilwra i ateb anghenion ysgolion unigol, athrawon a dysgwyr.

Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

O fewn llythrennedd rydym yn disgwyl i blant ddod yn fedrus mewn:

- Llafaredd ar draws y cwricwlwm
- Darllen ar draws y cwricwlwm
- Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

O fewn rhifedd rydym yn disgwyl i blant ddod yn fedrus mewn:

- Datblygu ymresymu rhifyddol
- Defnyddio sgiliau rhif
- Defnyddio sgiliau mesur
- Defnyddio sgiliau data

Asesu yn erbyn y FfLIRh

Y bwriad yw i asesu yn erbyn y FfLIRh gael ei ddefnyddio i gynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd, cynllunio'r ystafell ddosbarth a'r cwricwlwm.

Bydd athrawon yn defnyddio'r FfLIRh i asesu:

- Cynnydd unigol. Bydd hyn yn sail i drafodaeth am gryfderau'r dysgwr ar hyn o bryd a meysydd i'w datblygu.
- Cynnydd grwpiau er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio datblygiad y cwricwlwm a'r ysgol.

Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Asesiadau yw'r profion hyn y bydd plant yn eu sefyll ym mhob ysgol yng Nghymru bob mis Mai ac maen nhw'n rhan o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd (FfLIRh). Eu prif nodau yw:

- Rhoi mesur cywir i ysgolion am beth yw sgiliau a galluoedd plant unigol
- Helpu i godi safonau llythrennedd a rhifedd i blant ledled Cymru
- Creu darlun mwy eglur o sut mae plant yn perfformio'n genedlaethol.

Adrodd i Rieni

Bydd ysgolion yn adrodd i rieni/gofalwyr ar gynnydd unigolion, eu cryfderau a'r meysydd lle gall fod angen mwy o gymorth o ran llythrennedd a rhifedd.

Hefyd bydd rhieni/gofalwyr yn cael adroddiad a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ganlyniadau'r profion. Mae hyn yn cynnwys sgôr safonedig a sgôr sy'n cyfateb i oedran, a gwybodaeth sy'n dangos sut mae eich plentyn wedi perfformio o'i gymharu â phlant o oed tebyg.